Rhaglen IDEAL Newyddlen Rhif 11 Awst 2021

# BYW'N DDA A CHADW'N HEINI: RHAGLEN IDEAL

Gobeithio eich bod yn teimlo'n iach ac yn gallu mwynhau'r haf.

Fel pawb sy'n dygymod â phandemig COVID-19, rydym wedi newid sut rydym yn gweithio. Er mwyn parhau gyda'n hymchwil, mae tîm IDEAL yn gweithio o'u cartrefi yn awr. Rydym yn cyfarfod i gydweithio dros y rhyngrwyd a hefyd yn mwynhau amser paned yn rhithiol.

## Cynnydd y Rhaglen IDEAL


Mae tîm IDEAL wedi dechrau casglu cyfweliadau Pwynt Amser 6, sef cam terfynol astudiaeth IDEAL. Os nad ydym wedi cysylltu â chi eto, bydd Anna, Sophie neu Eleanor (ein hymchwilwyr cyfeillgar) yn cysylltu yn fuan i weld a ydych yn hapus i ddal i gymryd rhan.

## Diweddariad INCLUDE

Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran yn INCLUDE. Rydym wrthi'n ysgrifennu ein canfyddiadau. Gallwn ddatgan, er bod rhai pobl wedi bod yn dygymod yn dda a mwynhau'r cyfnod tawelach, mae'r pandemig wedi effeithio arnoch. Mae pobl sydd â dementia wedi cael mwy o drafferth na chyn y pandemig gyda hunan-ofal, problemau cof a theimlo'n unig. Bydd yr adroddiad llawn ar wefan IDEAL yn fuan. www.idealproject.org.uk

## Gweithgareddau eraill IDEAL

### Enwebiad Gwobr Arwr Dementia



Rydym yn falch o gyhoeddi bod prosiect INCLUDE wedi cyrraedd y rownd derfynol Gwobr Arwr Dementia ar gyfer Ymchwil gan Gymdeithas Alzheimer yn 2021. I weld y ffilm fer am INCLUDE a wnaethom ar gyfer y wobr, teipiwch y canlynol i'ch porwr gwe: **buff.ly/2ROD3Es**

### Cyfarfod â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cyfarfu'r Athro Linda Clare a Dr. Claire Pentecost, rhaglen IDEAL, â phobl o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, GIG Lloegr ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr ym Mehefin. Trafodwyd y Strategaeth Dementia Genedlaethol newydd, sydd â chynllun gweithredu i wella gofal a gwasanaethau dros y pum mlynedd nesaf. Siaradodd Linda a Claire am y pethau yr ydym wedi'u dysgu gennych, a all fwydo i'r strategaeth. Mae eich profiadau yn cyrraedd y bobl sy'n gwneud y penderfyniadau allweddol a gallent ddylawadu ar strategaethau cenedlaethol.

---

Mae ein gwaith o ddiddordeb mewn gwledydd eraill, hefyd. Siaradodd Linda am IDEAL mewn cynhadledd ddiweddar yn Hong Kong. Mae llawer o bobl hŷn yno ac maent yn creu strategaethau i helpu pobl i heneiddio'n dda. Mae eich gwybodaeth trwy IDEAL yn helpu'r tîm hwn yn Hong Kong i feddwl am sut orau i gefnogi pobl yno sydd â dementia.

# Croeso

Hoffen gyflwyno tri aelod newydd o staff sy'n gweithio ar raglen IDEAL:



Dr. Catherine Charlwood – Cathy – yw Rheolwr Ymchwil, Cyfieithu ac Effaith newydd IDEAL. Ei thasg yw cyrraedd cynulleidfaoedd newydd gyda chanfyddiadau gwych IDEAL. Mae'n ceisio ymgysylltu â'r cyhoedd a bydd IDEAL yn rhedeg digwyddiadau fel cyfres o weminarau yn y dyfodol. Mae'n frwd o blaid cynyddu dealltwriaeth o sut i fyw yn dda gyda dementia trwy roi llais i'r rhai sy'n arbenigwyr yn sgil eu profiad, sef chi. Mae Cathy wrth ei bodd gyda dawnsio ac mae'n ceisio dysgu Cymraeg.



Dr. Sally Stapley – Mae Sally yn arbenigwraig mewn cynnal cyfweliadau trwy sgwrsio. Mae hefyd yn darganfod patrymau ynn yr hyn mae gwahanol bobl yn ei ddweud i helpu i greu tystiolaeth. Mae wedi edrych ar brofiadau rhai pobl â dementia a'u gofalwyr yn ystod pandemig COVID-19. Bydd yn defnyddio'r wybodaeth a roddwyd i adnabod ffyrdd o helpu pobl i'r dyfodol. Mae'n mwynhau cerdded yng nghefn gwlad gyda'i chi, Marigold.



Dr. Serena Sabatini – Mae Serena yn arbenigwraig mewn edrych ar beth mae'r niferoedd yn ei olygu yn y data a gasglwn gennych. Mae'n defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni dros yr wyth mlynedd diwethaf i weld beth yw'r newidiadau a'r patrymau. Mae wedi cwblhau ei doethuriaeth yn ddiweddar, felly llongyfarchiadau! Mae'n mwynhau pobi a gwneud danteithion hyfryd i'r tîm!

# Cyhoeddiadau Diweddar:

I weld crynodeb o bob un o gyhoeddiadau IDEAL, ewch i'n gwefan

Mae'r wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni yn ein helpu i ddarparu gwybodaeth wyddonol newydd. Mae hefyd yn helpu i gefnogi ymgyrchoedd i wella pethau i bobl sy'n cael eu heffeithio gan ddementia. Dyma rai cwestiynau rydym wedi ymchwilio iddynt yn ddiweddar:

Sut y gwnaeth pobl â dementia a'u gofalwyr sy'n byw yn y gymuned ymdopi yn ystod y clo cyntaf? Pa gymorth oedd arnynt ei angen? Yr enw ar yr ymchwil yma oedd Menter Dementia IDEAL COVID-19 (IDEAL-CDI) ac fe edrychodd ar brofiadau yn ystod y clo.

Mae rhai pobl â dementia yn clywed pethau nad ydynt yno. Rydym yn edrych ar yr wybodaeth yr ydym wedi ei chasglu i weld sut mae hyn yn effeithio ar lesiant pobl.

## Ewch i:

**Unfurlings: Baneri dros Obaith a Newid**




Cewch weld y baneri yn:

**Amgueddfa Ddiwydiannol Bradford**

**Amgueddfa Feddygol Thackray, Leeds**

**Yn eich cartref** trwy arddangosfa rithi-ol o Amgueddfa Harris. Teipiwch **https://bit.ly/3dDtS1N** i'ch porwr gwe i'w

## Cysylltwch â ni

I gysylltu â ni, diweddaru eich manylion neu roi gwybod i ni am unrhyw newid yn eich amgylchiadau, cysylltwch â'r tîm IDEAL ym Mhrifysgol Caerwysg.

Gallwch adael neges ar y rhif ffôn: 01392 724653

E-bost: IDEAL@exeter.ac.uk

Rydym yn anfon y newyddlen hon atoch chi oherwydd eich bod wedi cymryd rhan yn y rhaglen IDEAL a rhoi caniatâd inni gysylltu â chi.

I wybod mwy, ewch i

**www.idealproject.org.uk**

**Gallwch hefyd ein dilyn ni ar Twitter @IDEALStudyTweet**